

## Tasg 1

# Gŵyl gemau

### Beth? Ble? Pryd? Pwy?

1. Beth ydy'r cysylltiad rhwng y pethau a'r bobl yn y lluniau?

I gael yr ateb, ewch i: <http://gemaucymru.urdd.cymru/cy/>

2. Crwydrwch o gwmpas y wefan i gael yr atebion i'r cwestiynau hyn:

a. Beth ydy'r ŵyl?

b. Beth sy'n digwydd?

c. Ble mae hyn yn digwydd?

ch. Pryd mae hyn yn digwydd?

d. Am faint mae'r ŵyl yn para?

dd. Pwy sy'n mynd i'r ŵyl?

e. Pwy sy'n noddï'r ŵyl?

f. Beth fydd pobl yn ei wisgo i gystadlu eleni?

ff. Beth fydd ar ddechrau'r ŵyl?

3. Trafodwch yr atebion gyda'ch partner er mwyn gwneud yn siŵr eich bod wedi dod o hyd i'r ffeithiau cywir.

4. Mewn parau, rydych chi'n mynd i greu cyflwyniad am yr ŵyl.

Defnyddiwch y wybodaeth rydych chi wedi dod o hyd iddi'n barod ac unrhyw wybodaeth arall sy'n berthnasol.

Cynlluniwch y cyflwyniad.

### **Y cynnwys:**

- Gŵyl eleni – pryd  
am faint bydd yr ŵyl yn para  
ble  
beth yn union fydd yn digwydd
- Unrhyw wybodaeth arall

### **Y dylunio:**

- Faint o destun rydych chi'n mynd i gynnwys ar y sleidiau (dim gormod!)?
- Meddyliwch am y dyluniad – (sut rydych chi'n mynd i osod y wybodaeth, pa ffont, pa faint, pa liwiau ac ati)
- Chwiliwch am ddelweddau addas
- Ydych chi eisiau cynnwys delwedd arall, e.e. map neu amserlen?

5. Ar ôl gorffen, cyflwynwch eich cyflwyniad i'r grŵp.

6. Gwerthuswch waith eich gilydd.